# Bronciectasis (heb fod yn ffeibrosis systig), gwaethygiad acíwt: rhagnodi gwrthficrobaidd

18 Rhagfyr 2018

## Bronciectasis: *oes angen gwrthfiotigau arna i?*

Cyflwr sy'n achosi mwcws i gronni y tu mewn i'r ysgyfaint yw Bronchiectasis. Y prif symptomau yw pesychu'n barhaus i gael gwared ar y mwcws (fflem) a theimlo'n brin eich anadl. Bydd pobl sydd â Bronchiectasis yn fwy tueddol o gael heintiau ar yr ysgyfaint.

Mae'n eithaf cyffredin i symptomau waethygu'n fwy na'r arfer yn sydyn - gelwir hyn yn waethygiad neu'n fflamychiad, a gall olygu bod gennych haint.

Gall fflamychiadau achosi rhagor o niwed i'r ysgyfaint felly mae'n bwysig eich bod yn cael triniaeth. Dylech gael cynnig gwrthfiotigau ar gyfer unrhyw haint bacterol yn eich ysgyfaint.

Er bod angen gwrthfiotigau ar bawb pan fyddant yn cael fflachymiad, ni fydd pawb eu hangen er mwyn atal fflamychiadau. Mae defnyddio gwrthfiotigau pan nad oes eu hangen arnoch yn golygu efallai na fyddant yn gweithio cystal yn y dyfodol. Mae hwn yn risg ddifrifol i iechyd.

Ond os byddwch yn cael llawer o fflamychiadau, mae'n bosibl y bydd eich arbenigwr yn awgrymu cymryd gwrthfiotigau bob dydd am gyfnod i weld a fydd hyn yn helpu.

## *Dechrau cymryd gwrthfiotigau*

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio y gall gwrthfiotigau achosi sgil-effeithiau, megis dolur rhydd a chyfog (teimlo'n sâl).

Dylech weld eich meddyg os bydd eich symptomau'n gwaethygu'n sydyn ar unrhyw adeg neu os byddwch yn teimlo'n sâl iawn. Mae'n bosibl y bydd yn eich atgyfeirio at yr ysbyty os bydd gennych arwyddion o salwch difrifol.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to [Notice of rights]

## *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â thriniaeth a gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithwyr iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon.

Ceir rhagor o wybodaeth am y canlynol ar wefan y GIG :

- bronciectasis **a**
- gwrthfiotigau.

Rydym hefyd wedi ysgrifennu gwybodaeth am pam y dylid defnyddio gwrthfiotigau yn gall.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllawiau hyn gyda gweithwyr iechyd proffesiynol ac aelodau o'r cyhoedd. Mae'r holl argymhellion yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3172-9

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights